PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 23 TACHWEDD 2022, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr) (tan gofnod 12); Dr Otar Akanyeti; Mr Thomas Bates; yr Athro Hazel Davey; Dr Sarah Davies; yr Athro Iain Donnison; Dr Patrick Finney; Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen PA y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Sarah Higgins; Dr Aloysius Igboekwu; Dr Ffion Jones; Mr Dafi Jones, Llywydd UMCA; Dr Alex Mangold; Dr Louise Marshall; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; Dr Heather Norris; Dr Samuel Raybone; yr Athro Eleri Pryse; yr Athro Phillipp Schofield; Dr Lucy Trotter; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion. |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Iain Barber; Dr Cathryn Charnell-White; yr Athro Simon Cox; Dr Andrew Davies; yr Athro Andrew Evans; Dr Thomas Jansen; yr Athro Jamie Medhurst; yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; a Dr Anoush Simon. |
| Yn gweinyddu: | Mrs Kate Wright, Gwasanaethau Gwybodaeth; Dr Gethin Rhys, Dirprwy Gofrestrydd; a Ms Emma Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro a Chofrestrydd Academaidd. |

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Nigel Holt; yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Ms Aisleen Sturrock, Llywydd Undeb y Myfyrwyr; Ms Elizabeth Manners, Swyddog Materion Academaidd, Undeb y Myfyrwyr; yr Athro Mererid Hopwood.

## 16. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Croeso

   1. Croesawyd y canlynol i'w cyfarfod cyntaf yn aelodau o'r Senedd:

      1. Mr Thomas Bates, aelod staff anacademaidd

      2. Ms Jackie Sayce, aelod staff an-academaidd.

      3. Yr Athro Iain Barber, aelod heb bleidlais, Adran y Gwyddorau Bywyd.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Yr Athro Emeritws Martin Barker, cyn Athro yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu;

2. Yr Athro Richie Overdale, cyn aelod o staff yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

**17. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**18. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

1. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2022 (SEN2223-022).

**PENDERFYNWYD**

2. Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**19. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2223-023).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

53. Byddai diwygiadau i ddrafft y Cynllun Cynaliadwyedd yn cael eu trafod yn fuan gan Weithrediaeth y Brifysgol, ac yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Senedd. Byddai'r rhain yn rhoi sylw i effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu trydan, plannu coed, a phrosiect gwres ardal.

9.7 Roedd canllawiau ar ofynion preswyl uwchraddedigion wedi cael eu hadolygu gan roi sylw penodol i'r gwaith maes a gymeradwywyd, a byddent yn cael eu cyhoeddi'n fuan. Cafodd yr eitem ei chau.

9.8 Roedd Undeb y Myfyrwyr wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau i dynnu sylw at beryglon cydgynllwynio, gan gynnwys trafodaeth â chynrychiolwyr myfyrwyr a gynhelir cyn diwedd y tymor. Cafodd yr eitem ei chau.

9.9 Roedd y Gofrestrfa Academaidd wedi diweddaru'r Rheoliadau ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, gan dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng lledaenu ymchwil a'r arfer o rannu gwaith a asesir. Cafodd yr eitem ei chau.

**20. GOHEBIAETH**

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

**21. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR I'R SENEDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN2223-024)

NODWYD

1. Roedd tair prif ran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Roedd damweiniau yn ddiweddar ar Benglais wedi codi pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd, a byddai'r Brifysgol yn eu trafod â'r awdurdodau priodol. Croesawodd yr aelodau’r newyddion am ddatblygu llwybr troed a beicio rhwng Penglais a Gogerddan.

3. Cafodd y twf calonogol yn nifer y myfyrwyr yn gyffredinol ei dymheru gan y ffaith nad oedd digon o fyfyrwyr rhyngwladol wedi cofrestru. Gwneir iawn am y diffyg dilynol yn y gyllideb trwy arbedion anrheolaidd yn ystod 2022/23, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i hybu cyfraddau trosi mewn adrannau allweddol sydd â photensial am dwf rhyngwladol. Bydd hyn yn cynnwys yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth a oedd yn ddiweddar wedi ailgyflwyno cyrsiau israddedig amser llawn. Roedd Astudiaethau Gofal Iechyd a Milfeddygol yn cael eu darparu yn Adran y Gwyddorau Bywyd, ond yn cael eu cyflwyno ar wahân i bwysleisio’u patrymau recriwtio unigol.

4. Roedd dathliadau’r pen-blwydd yn 150 yn mynd rhagddynt, ac roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys achlysur yn ddiweddar ym Malaysia lle’r oedd Canghellor y Brifysgol wedi annerch 130 o gyn-fyfyrwyr. Gwelwyd hefyd arwyddion cadarnhaol y gallai'r ymweliad gynnig cyfleoedd newydd am bartneriaethau ac ymchwil.

**22. PWYLLGOR YMCHWIL AC ARLOESI**

1. Adroddiad gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Tîm Effaith Ymchwil (SEN2223-025).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ymchwil ar 28 Medi 2022.

2. Adroddiad Blynyddol Moeseg Ymchwil

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lisa Fisher, Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN2223-026).

NODWYD

1.Cafodd dau honiad o gamymddygiad ymchwil eu cyfeirio ymlaen am ymchwiliad ffurfiol yn ystod 2020/21. Er bod y rhain yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ynglŷn â’r prosesau adrodd cyfredol, roedd yr ymrwymiad amser i’r archwilwyr yn sylweddol, a byddai’n amserol cynnal adolygiad cynhwysfawr ar y gweithdrefnau.

3. Roedd pryderon penodol wedi'u codi mewn perthynas â chyhoeddi papurau gan uwchraddedigion ymchwil, gyda chysylltiadau posibl â chartelau cyfeiriadaeth.

**PENDERFYNWYD**

4. Adolygu gweithdrefnau yng nghyswllt camymddygiad ymchwil, yng nghyswllt staff a myfyrwyr [**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor, Ymchwil].

5. Dosbarthu gwybodaeth am gartelau cyfeiriadaeth i aelodau'r Senedd. [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor, Ymchwil].

**23. ADRODDIAD O'R BWRDD ACADEMAIDD**

1. Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2223-026).

   NODWYD

   Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ar 09 Tachwedd 2022.

2. Atodlen Arolygiadau Adrannol

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2223-028).

   NODWYD

   Ar ôl amhariad Covid, trefnir hyd at bum arolwg adrannol yn ystod 2022/23 er mwyn cynnal cylch y Brifysgol o bum-chwe-mlynedd.

3. Adroddiadau Arholwyr Allanol

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2223-029).

   NODWYD

   1. Cafodd adroddiad ar wahân ei gynnwys yn rhoi crynodeb o'r prif faterion a godwyd yn Adroddiadau'r Arholwyr Allanol am y sesiwn flaenorol. Roedd Adroddiadau'r Arholwyr Allanol wedi'u hystyried yn fanwl gan Bwyllgorau Materion Academaidd y Cyfadrannau hefyd.

   2. At ei gilydd, roedd Arholwyr Allanol wedi bod yn fodlon â safonau academaidd y dyfarniadau yn Aberystwyth, ac yn fodlon bod safonau perfformiad myfyrwyr yn cyfateb i berfformiad myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch eraill yn y DU.

4. Datganiad Sicrwydd Ansawdd

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2223-030).

   NODWYD

1. Diben y Datganiad Sicrwydd Blynyddol oedd rhoi'r dystiolaeth briodol i gorff llywodraethu'r Brifysgol, sef y Cyngor, fel y gallai'r Cyngor fod yn fodlon bod y Brifysgol wedi cyflawni, a'i bod yn dal i gyflawni, ei rhwymedigaethau yng nghyswllt cyfres o ddatganiadau'n ymwneud â sicrwydd ansawdd. Canolbwyntiai'r datganiad ar adrodd am weithgaredd yn 2021/22 yng nghyd-destun Adolygiad Gwella Ansawdd yr ASA, a gynhaliwyd yn y gwanwyn. Roedd gofyn i'r Cyngor, sef y Corff Llywodraethu, gyflwyno adroddiad i CCAUC bob blwyddyn. Fodd bynnag, roedd sicrhau a gwella ansawdd dysgu ac addysgu yn digwydd trwy gydol y flwyddyn academaidd ac nid yn cael ei gyfyngu i brosesau blynyddol. Câi'r adroddiad ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd.

2. Croesawodd yr aelodau gymeradwyaeth yr Adolygiad Gwella Ansawdd i berthynas golegol y Brifysgol â'i phartneriaid, a oedd yn eu rhoi mewn sefyllfa i gymryd rhan yn y bartneriaeth ar sail gyfartal. Gostyngwyd y lefel gysylltiedig o bryder i isel, er y byddai cydweithrediadau a phartneriaethau yn parhau i gael eu monitro'n agos a'u rheoli trwy'r Gofrestrfa Academaidd (Tîm Partneriaethau) a phwyllgorau perthnasol.

3. Cynyddwyd lefel y pryder ynglŷn ag apeliadau, cwynion a disgyblaeth myfyrwyr i goch oherwydd cynnydd yn y niferoedd ac, efallai'n fwy arwyddocaol, cymhlethdod achosion unigol a'r effaith a gânt ar lwythi gwaith a lles myfyrwyr. Yn unol â thueddiadau ar draws y sector, roedd disgwyl y byddai'r gwaith achos yn y meysydd hyn yn parhau i gynyddu o ran niferoedd a chymhlethdod.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r Datganiad Sicrhau Ansawdd a'i gyfeirio i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol a'i gyflwyno i'r Cyngor Cyllido. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

5. <u>Datganiad ar Ganlyniadau Gradd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2223-031).

NODWYD

1. Cafodd y Datganiad ar Ganlyniadau Gradd ei ddiweddaru ar gyfer 2020/21 a'r setiau data wedi'u cario ymlaen. Dangosai dwy flynedd o ganlyniadau a ddylanwadwyd gan Covid gynnydd yn y graddau dosbarth cyntaf ond gymaint yn yr ail ddosbarth uchaf. Byddai canlyniadau'r flwyddyn academaidd nesaf yn rhoi syniad cadarnach o'r proffil dyfarnu y tu hwnt i bandemig. Byddai Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr yn cwrdd ag adrannau i adolygu patrymau ar lefel pwnc, o safbwynt chwyddiant ac unrhyw arwyddion o dan-gyflawni o'i gymharu â safonau mynediad.

2. Mewn ymateb i gynnydd graddol yn nifer y myfyrwyr sy'n tynnu'n ôl, bydd strategaeth newydd i gadw myfyrwyr yn canolbwyntio ar y gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr mewn categorïau penodol, gan gynnwys y myfyrwyr y mae'r Brifysgol yn ymwybodol eu bod mewn sefyllfa fregus.

**PENDERFYNWYD:**

3. Argymell y Datganiad ar Ganlyniadau Gradd i'r Cyngor i’w gymeradwyo. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

4. Gofyn am ddiweddariad gan y Bwrdd Academaidd ynglŷn â dosbarthiadau lefel pwnc, yn dilyn arolwg gan y Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu. a Phrofiad y Myfyrwyr. [**GWEITHREDU:** Y Cofrestrydd Academaidd].

5. Gofyn am ddiweddariad gan y Bwrdd Academaidd ar y strategaeth ar gyfer cadw myfyrwyr. [**GWEITHREDU:** Y Cofrestrydd Academaidd].

**24. ADRODDIAD O’R BWRDD MARCHNATA A DENU MYFYRWYR**

1. Adroddiad o’r Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kylie Evans, Pennaeth Gweithrediadau Derbyn Myfyrwyr (SEN2223-032)

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2022. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. Cafodd y Cylch Gorchwyl ei adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu lleoliad newydd y Swyddfa Dderbyn yn y Swyddfa Marchnata a Denu Myfyrwyr ers mis Hydref 2022. Byddai cylch gorchwyl y 'Bwrdd Marchnata, Denu a Derbyn Myfyrwyr', fel y cafodd ei ailenwi, yn cynnwys rhai cyfrifoldebau Derbyn Myfyrwyr a Throsi Ceisiadau a oedd hyd yn hyn wedi aros ymhlyg ond heb eu datgan yn eglur, a byddai'r aelodaeth yn cael ei ehangu i gynnwys ystod ehangach o staff cyswllt academaidd.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r diwygiadau i Gylch Gorchwyl y Bwrdd Marchnata a Denu a Derbyn Myfyrwyr.

2. Strategaeth Ehangu Cyfranogiad

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Teleri Lewis, Rheolwr Ehangu Cyfranogiad (SEN2223-033)

NODWYD

1. Amlinellai Strategaeth Ehangu Mynediad newydd 2022-2026 flaenoriaethau'r Brifysgol ar gyfer ymateb i ymrwymiad Cynllun Strategol 2018-2023 o gynyddu mynediad i addysg uwch ac i annog cyfranogiad a gweithgareddau cydweithrediadol trwy bartneriaethau helaeth. Roedd y strategaeth hefyd yn cefnogi amcanion a gwaith Cynlluniau Ffioedd a Mynediad 2022-2023 a Chynlluniau’r Rhaglen Ymestyn yn Ehangach 2020/21 tan 2022/23.

2. Byddai'r Strategaeth yn cael ei chyfnerthu ymhellach trwy gyfeirio'n benodol at fyfyrwyr ar gyrsiau sylfaen a chyrsiau dysgu o bell, a oedd yn aml yn dod o gefndiroedd anhraddodiadol, a'r cymorth sefydliadol a roddir i fyfyrwyr ag Anghenion Ychwanegol.

3. Byddai Cynhadledd Derbyn Myfyrwyr bellach yn cael ei chynnal yn gynnar yn 2023, ac nid cyn y Nadolig fel y nodwyd yn y papurau.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r Strategaeth Ehangu Mynediad, yn amodol ar ychwanegu cyfeiriad penodol at fyfyrwyr dysgu o bell a myfyrwyr sylfaen, a'r gefnogaeth sefydliadol ar gyfer Anghenion Ychwanegol. [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr].

**25. ADRODDIAD GAN FWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL**

1. Adroddiad o Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sarah Jones, Cofrestrydd Cynorthwyol - Partneriaethau Academaidd (SEN2223-034).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol ar 01 Tachwedd 2022.

2. Adroddiad Blynyddol ar Bartneriaethau Cydweithrediadol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Judith Shepherd, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2223-035).

NODWYD

1. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn nodi statws y partneriaethau cyfredol rhwng y Brifysgol a darparwyr eraill. Tynnai sylw’n arbennig at y berthynas gref sydd wedi’i meithrin â’r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol, Menter a Busnes, a cholegau Addysg Bellach yng Nghymru, yn ogystal â gweithgareddau eraill a oedd yn cael eu rheoli gan y Swyddfa Farchnata a Denu Myfyrwyr.

2. Cafodd yr adroddiad ei groesawu gan yr aelodau, a byddai copi'n cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor er gwybodaeth.

**26. BLACKBOARD ULTRA**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kate Wright, o'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu (SEN2223-036)

NODWYD

1. Yn dilyn trafod a chytundeb yn y Pwyllgor Gwella Academaidd a chyfarfod y Bwrdd Academaidd ym mis Tachwedd 2022, byddai'r Brifysgol yn bwrw ymlaen gyda'r paratoadau ar gyfer Blackboard Ultra rhwng Ionawr a Medi 2023. Roedd Blackboard Ultra yn fersiwn newydd, hygyrch o Blackboard y gellir ei defnyddio ar ffonau symudol, a byddai'r UBN (Ultra Base Navigation) yn cael ei alluogi ar fersiwn byw y Brifysgol o Blackboard rhwng 3 a 6 Ionawr 2023. Byddai'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu wedyn yn bwrw ymlaen i gydweithio â staff ar draws y Brifysgol i sicrhau y byddai Cyrsiau Ultra yn cael eu defnyddio o fis Medi 2023 ymlaen.

2. Ar hyn o bryd roedd yr Uned yn gweithio gyda Blackboard i sicrhau bod cyrsiau'n barod, yn enwedig yng nghyswllt cwisiau ac unrhyw anawsterau posibl wrth drosglwyddo i Ultra. Byddai'r Uned yn rhoi diweddariad i Benaethiaid Adran maes o law, ac yn adrodd i gyfarfod nesaf y Senedd ar unrhyw anghenion o ran adnoddau a chymorth ychwanegol.

3. Ymrwymodd Blackboard i ddarparu rhyngwyneb Cymraeg i Blackboard Ultra, yn dilyn gwaith paratoi a arweiniwyd gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD**

4. Y dylai'r Uned roi diweddariad ar baratoadau Blackboard Ultra yng nghyfarfod nesaf y Senedd. [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth].

**27. SIARTER Y MYFYRWYR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Emma Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro (COU2223-037).

NODWYD

1. Mae CCAUC yn mynnu bod Prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn cytuno ar Siarter Myfyrwyr, a ddylai fod yn ddogfen bartneriaeth lefel uchel sy'n berthnasol i'r corff amrywiol o fyfyrwyr, a darparu cyfeiriadau a chysylltiadau at wybodaeth fanylach, megis rheoliadau, cymorth i fyfyrwyr, a gwybodaeth am gyrsiau. Mae Siarter Myfyrwyr y Brifysgol wedi'i gyhoeddi ar wefan y sefydliad.

2. Roedd y Cyngor Cyllido yn disgwyl i sefydliadau adolygu eu Siarteri Myfyrwyr yn flynyddol, mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr o Undeb y Myfyrwyr.

3. Cafodd Siarter Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ei hadolygu a'i diwygio ddiwethaf ym mis Awst 2021, mewn ymateb i ganllawiau ychwanegol a gafwyd gan CCAUC. Roedd darpariaethau'r Siarter wedi'u hadolygu'n ddiweddar mewn ymgynghoriad ag Undeb y Myfyrwyr, ac roedd angen mân ddiweddariadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2022–23.

**28. CYTUNDEB PERTHYNAS GYDAG UMABER**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Emma Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro (COU2223-038).

NODWYD

1. Mae'n amod gan y Cyngor Cyllido bod Prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn creu Cytundeb Perthynas, y dylid ei gymeradwyo bob blwyddyn gan Gorff Llywodraethu'r sefydliad, ei adolygu’n flynyddol mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, a'i lofnodi gan Swyddogion Undeb y Myfyrwyr sy'n dechrau yn eu swyddi. Roedd y Cytundeb Perthynas ar gyfer 2022–23 wedi'i adolygu gan Ysgrifennydd y Brifysgol, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, a Phrif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr. Ar wahân i ddiweddaru'r llofnodion, ni chynigiwyd newidiadau i'r cytundeb fel y saif ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD**

2. Y dylid cadw'r Cytundeb Perthynas cyfredol am y flwyddyn academaidd i ddod. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

## 29. GRADDAU ER ANRHYDEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Emma Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro (COU2223-039).

NODWYD

1. Ar 28 Hydref 2022, cyfarfu'r Grŵp Graddau er Anrhydedd i ystyried enwebiadau am Raddau er Anrhydedd Prifysgol Aberystwyth. Roedd yr adroddiad yn nodi'r rhestr fer arfaethedig, a gofynnwyd i'r aelodau barchu natur gyfrinachol y papur hwn. Ni fyddai'r Brifysgol yn gohebu â'r rhai sy'n cael eu hargymell am Radd er Anrhydedd tan y bydd eu henwau wedi cael sêl bendith y Cyngor. Ar ben hynny, ni fyddai enwau'r rhai y cyflwynir Gradd Er Anrhydedd iddynt yn cael cyhoeddusrwydd tan haf 2023.

**PENDERFYNWYD**

2. Cyfeirio'r enwebiadau am Raddau er Anrhydedd i'r Cyngor i'w cymeradwyo. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

## 30. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN2223-040);

2. Grantiau Ymchwil (SEN2223-041)

3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2223-042); a

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau eraill a gyflwynwyd er gwybodaeth.

## 31. COFNODION PWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN2223-043):

1. Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (28 Medi 2022);
2. Y Bwrdd Academaidd (09 Tachwedd 2022);
3. Y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (14 Tachwedd 2022);
4. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (01 Tachwedd 2022); a;
5. Y Cyngor (23 Medi 2022)

NODWYD

6. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

**32. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

NODWYD

Roedd disgwyl i gyfarfod nesaf y Senedd gael ei aildrefnu oherwydd digwyddiad dathlu 150$^{fed}$ pen-blwydd ar 22 Mawrth 2023.

HGRh 03/12/22